**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Gweithgor Craffu ar Gynhwysiad Digidol

**O bell trwy *Microsoft Teams***

**Dydd Mawrth, 11 Mai 2021 am 2.00 pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd L V Walton (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M C Child | H M Morris | D W Helliwell |
| C A Holley | J W Jones | |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| A H Stevens | L S Gibbard |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Sarah Lackenby | Prif Swyddog Digidol a Thrawsnewid |
| Liz Shellard | Rheolwr y We a Swyddog Trawsnewid Digidol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J A Hale
Hefyd yn bresennol: A Pugh

---

1 **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

2 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Dim

3 **Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Dim

4 **Cwestiynau gan y cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

5 **Llythyr y Cynullydd - Y Gweithgor Blaenorol**

Gofynnodd y gweithgor am yr wybodaeth ddiweddaraf am y pwyntiau allweddol a godwyd yn y llythyr hwn ac mae'r rhain wedi'u cynnwys fel rhan o'r adran nesaf.

## 6 Adroddiad ar Gynhwysiad Digidol

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed i gynyddu cynhwysiad digidol cyn ac yn ystod y pandemig, y gwaith sydd eisoes wedi'i gynllunio ar gyfer 2021/22 ac edrych i'r dyfodol, ar ôl COVID-19.

Mae llawer o resymau da dros fod ar-lein ond amlygwyd y manteision hyn yn ystod y cyfyngiadau symud. Gall bod ar-lein wella cyfleoedd bywyd pobl yn sylweddol drwy: helpu pobl i ddod o hyd i waith; cynnig gwell cyfleoedd dysgu; cael gafael ar nwyddau a gwasanaethau rhatach ar-lein; lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd, yn enwedig i'r rhai mwyaf diamddiffyn; a bod yn rhan o gymunedau digidol, sy'n gwella canlyniadau lleol drwy weithgareddau a mentrau cydgysylltiedig.

Roedd y gwaith o 2018 i ddechrau'r pandemig yn cynnwys y canlynol:

- Cyflwynwyd Fframwaith Strategol Cynhwysiad Digidol drafft i'r Gweithgor Cynhwysiad Ariannol ym mis Tachwedd 2019. Defnyddiodd y fframwaith y data a'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). Amlygodd hyn fod gan Abertawe niferoedd uchel iawn o bobl yn defnyddio'r rhyngrwyd, ac yn uwch fel canran na chyfartaleddau Cymru a'r DU. Er nid oedd hyn yn golygu nad oes problem gyda chynhwysiad digidol. Fodd bynnag, ers hynny mae COVID-19 wedi bod yn flaenllaw drwy gydol 2020 ac i mewn i 2021 a bydd wedi effeithio ar y tirlun cynhwysiad digidol. Mae hyn yn golygu bod y defnydd o sianeli digidol wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y cyfnod hwn.
- Dilynodd 454 o bobl gyrsiau tabled a chyfrifiadur am ddim Dewch Ar-Lein Abertawe yn 2018/19 a 302 yn 2019/20
- Mae *Learn My Way* yn gyfres o gyrsiau ar-lein byr a diddorol sy'n hyfforddi dysgwyr ar dasgau fel defnyddio llygoden a bysellfwrdd, ymwybyddiaeth o weithredoedd twyllodrus a diogelwch i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol neu fancio a siopa ar-lein

Roedd gwaith ar gynhwysiad digidol yn ystod pandemig COVID-19 yn cynnwys y canlynol:

- Pan ddechreuodd y cyfyngiadau symud cyntaf ym mis Mawrth 2020 roedd angen sicrhau bod gan staff y cyfarpar, y sgiliau digidol a'r mynediad at fand eang i weithio gartref.
- I'r cyhoedd cyffredinol sydd wedi'u heithrio'n ddigidol yn Abertawe, sefydlwyd dulliau cefnogi all-lein ac roedd y cynnig i helpu i fynd ar-lein ar gael drwy sianeli amrywiol.
- Roedd hyn yn cynnwys cynhwysiad digidol i staff, cymorth i breswylwyr a oedd yn gwarchod, cymorth i breswylwyr mewn perthynas ag addysg, cyflogadwyedd, camau bywyd gan gynnwys 50+, Dysgu Gydol Oes.
- Darparwyd hefyd hyfforddiant digidol ar draws sefydliadau partner
- Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu i gysylltu â thrigolion Abertawe, p'un a oeddent wedi'u cynnwys yn ddigidol neu eu heithrio: sianeli all-lein e.e. datganiadau i'r wasg a phosteri, llythyrau at breswylwyr ynghyd â negeseuon testun, a gwneud y rheini a oedd yn gwarchod yn ymwybodol o'r llinell gymorth brys. Sianeli ar-lein fel y wefan, cyfryngau cymdeithasol ac e-byst. Cynyddwyd ymwybyddiaeth ar-lein ar gyfer pob ffynhonnell o gymorth i fynd ar-lein a gwella sgiliau digidol. Roedd y rhain yn cynnwys rhannu cyrsiau Cymunedau Digidol

Cymru ar wefan y cyngor ac ar gyfryngau cymdeithasol a hyrwyddo'r llinell gymorth a chyrsiau Dysgu Gydol Oes. Targedwyd negeseuon ar-lein at bobl a allai adnabod rhywun sydd angen help.

- Mae rhai o effeithiau COVID-19 ar y tirlun cynhwysiad digidol yn cynnwys sawl ffactor sy'n newid a fydd yn cael eu hystyried wrth adolygu'r Fframwaith Strategol Cynhwysiad Digidol. Mae'r rhain yn cynnwys: Pob cwmni a sefydliad yn symud tuag at sianeli digidol, mwy o gymorth cymunedol a theuluol i helpu pobl i fynd ar-lein - wrth i fwy o bobl symud i sianeli ar-lein, mae sgiliau a hyder wedi cynyddu o gymharu â data 2019. I rai preswylwyr, roedd galwadau ffôn fideo yn ffordd hanfodol o gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu, yn enwedig i'r rheini a oedd yn gwarchod. Efallai fod proffil y rheini nad ydynt yn ddefnyddwyr wedi newid ac mae angen mwy o ddata a dadansoddiadau ar hyn.

Symud ymlaen, 2021/2022 a'r dyfodol

- Mae angen adolygu'r Fframwaith Strategol Cynhwysiad Digidol yng ngoleuni data newydd sy'n dod i'r amlwg ar ôl y pandemig, ynghyd â'r newid demograffig naturiol dros y blynyddoedd nesaf. Bydd angen ailedrych ar y cerrig milltir a'r dyddiadau hefyd er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben cyn trafod eto gyda rhanddeiliaid.
- Bydd Galw Cymunedol yn cael ei gwireddu ddiwedd Ebrill 2021
- I gyd-fynd ag adnoddau canolog bach Addysg, mae ysgolion yn cynyddu nifer y dyfeisiau digidol drwy brynu offer gan ddefnyddio Grant Hwb ar gyfer Seilwaith Llywodraeth Cymru.
- Mae gwaith wedi dechrau ar wefan newydd y cyngor, a fydd yn cael ei gyflawni ddiwedd haf 2021.
- Bydd diogelu drwy barhau i hyrwyddo diogelwch ar-lein ac ymwybyddiaeth o weithredoedd twyllodrus yn parhau.
- Mae'r tîm Dysgu Gydol Oes yn ystyried amserlenni ac opsiynau posib i ddod â chyrsiau wyneb yn wyneb yn ôl yn raddol.
- Mae'r achos busnes digidol rhanbarthol dros y Fargen Ddinesig wedi'i gymeradwyo gan Lywodraethau Cymru a'r DU ac mae bellach ar waith.

Trafodaeth

- Mynegwyd pryder parhaus ynghylch y bobl hynny na fyddant byth, am ba reswm bynnag, yn gallu cael mynediad at y rhyngrwyd a sut yr ydym yn sicrhau nad ydynt yn cael eu heithrio. Eglurodd Liz Shellard, Rheolwr y We, os gall pobl wneud yr hyn sydd ei angen arnynt ar-lein mae hynny'n dda, ond cynhelir gwasanaeth Canolfan Gyswllt y cyngor dros y ffôn o hyd ac mae hyn yn dal i fod yn rhan fawr o'r hyn a wnawn. Mae gan bawb amrywiaeth o sianeli lle gallant gael mynediad at wasanaethau a gellir eu defnyddio mewn ffordd sy'n addas iddynt.
- Dywedodd Aelod y Cabinet, Louise Gibbard, ein bod wedi dysgu llawer o wersi drwy'r Ymchwiliad Craffu ar Gydraddoldeb ac o ganlyniad i'r pandemig, y byddwn yn eu cynnwys pan fydd pethau'n cael eu hadolygu yn y dyfodol.
- Clywodd y Gweithgor fod y cyngor yn gweithio tuag at Gyfrif Abertawe, lle gall pobl fewngofnodi a gweld yr holl drafodion y maent wedi'u gwneud gyda'r cyngor mewn ffordd ddiogel.
- Tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at y ffaith mai lleiafrif bach sydd o bosib wedi'u heithrio'n ddigidol bellach a bod y rheini'n debygol o fod yn unigolion yn hytrach na grwpiau penodol. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn cydnabod hynny ac yn targedu ein cymorth yn briodol. Rydym yn symud tuag at gydraddoldeb digidol yn hytrach

na chynhwysiad digidol a byddem yn awgrymu fod y Strategaeth/Fframwaith adolygu yn cael ei galw'n Strategaeth Cydraddoldeb Digidol yn y dyfodol.

- Mae cydraddoldeb hefyd yn ymwneud â phobl yn gallu cael isadeiledd da, er enghraifft band eang a signal ar gyfer ffonau symudol. Dylai rhaglen isadeiledd y Fargen Ddinesig fynd i'r afael â rhywfaint o hyn.
- Codwyd y mater o fynediad cyhoeddus drwy sgriniau cyffwrdd mewn mannau cyhoeddus gan gynnwys sut mae'r cyngor yn defnyddio hyn i alluogi'r rheini a fyddai'n ei chael hi'n anodd defnyddio cyfrifiadur. Bydd LS yn ystyried dosbarthu rhagor o wybodaeth am hyn ar ôl y cyfarfod.
- Trwy COVID-19 rhoddwyd help i grŵp bach o 79 o unigolion a oedd angen rhagor o gymorth i gael mynediad at wasanaethau fel nad oedden nhw'n cwympo drwy'r rhwyd. Daeth staff ar draws yr awdurdod at ei gilydd i wneud eu gorau dros ddinasyddion. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ystod y cyfnod hwn yn ymwneud â mynediad at wasanaethau.
- Preifatrwydd a diogelwch ar-lein. Mae'r cyngor yn llunio rhestr o weithredoedd twyllodrus gyda Safonau Masnach. Caiff y rhain eu cyfleu i'r cyhoedd drwy'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy dîm cyfathrebu'r cyngor. Darperir ymgyrch gwe-rwydo a hyfforddiant a fydd yn gwneud mwy o bobl yn ymwybodol ac yn helpu i fynd i'r afael â'r broblem. Cydnabuwyd nad yw rhai pobl yn hoffi gwneud trafodion ar-lein oherwydd eu pryderon ynghylch diogelwch a diogeledd.
- Cydnabuwyd bod y dirwedd mewn materion digidol wedi newid yn gyflym dros y flwyddyn ddiwethaf ac y bydd angen gwneud rhagor o waith i weld sut y dylai edrych ar ôl COVID-19.
- Roedd Fframwaith Strategol Cynhwysiad Digidol drafft wedi'i ddatblygu cyn COVID-19 a bydd angen ei adolygu. Hoffai Llywodraeth Cymru gyfrannu at hyn ac maent wedi gofyn i'r drafft gwreiddiol gael ei ddosbarthu iddynt.
- Mae gwefan newydd ar draws y cyngor yn cael ei datblygu, a bydd yn sicrhau, er enghraifft; fod yr agweddau chwilio yn gywir a bod Cymraeg/Saesneg clir yn cael ei defnyddio. Gweithio gyda swyddog mynediad at wasanaethau i weithio gyda grwpiau cydraddoldeb gwahanol i'w ddatblygu. Hoffai Llywodraeth Cymru gyfrannu eu syniadau i ddyluniad newydd y wefan ac maent wedi gofyn i ni gysylltu â nhw pan fo'n briodol fel y gallant ymgysylltu.
- Cydnabyddir bod diogelu yn allweddol mewn gweithgarwch ar-lein ac mae hyn yn cael ei ystyried yn ofalus iawn.
- Roedd Llywodraeth Cymru yn falch o glywed am y Sgwrsfot a aeth yn fyw yn ystod y pandemig i gynorthwyo pobl wrth chwilio am wybodaeth ac yn eu cyfeirio mewn perthynas â thrais domestig.
- Cytunodd Llywodraeth Cymru fod y cyngor ar y trywydd iawn gyda'i strategaeth cynhwysiad digidol ac yn cydnabod ei fod yn awyddus i wneud y gwelliannau cywir.

## 7 **Trafodaeth a Chasgliadau**

Bydd Cynullydd y Gweithgor yn ysgrifennu at Aelod y Cabinet i roi barn y grwpiau ar y materion a godwyd yn y drafodaeth. Bydd hyn yn cynnwys syniadau ar y rheini na fyddant/nad ydynt yn mynd ar-lein, diogelu a diogeledd digidol, y fframwaith cynhwysiad digidol, cyfathrebu a'r wefan newydd.

Teimlai'r Gweithgor fod cynhwysiad/cydraddoldeb digidol yn fater parhaus ac y dylai'r grŵp hwn gyfarfod yn flynyddol i ystyried y cynnydd sy'n cael ei wneud.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.30pm

**Cadeirydd**